

Cyfeillion Ysgol Waunfawr/Friends of Ysgol Waunfawr



Annwyl Rhieni

Mae'r cyfeillion wedi cyfarfod yn ddiweddar ac wedi penderfynu cynnal dau weithgaredd dros fis Rhagfyr er mwyn codi arian i'r ysgol. Mae hi yn gyfnod hynod o anodd i fedru codi arian yn y ffordd draddodiadol, felly rydym wedi gorfod dod i fynnu gyda syniadau gwahanol eleni.

Yn anffodus ni fydd modd cynnal Ffair Nadolig a does yna ddim digon o rieni ar y pwyllgor i fedru rhoi'r amser i mewn i drefnu Ffair Nadolig digidol. Felly rydym am gynnal Raffl Nadolig dros y we a Ras Sion Corn Rhithiol.

Raffl Nadolig

Rydym am greu hampers bwyd a diod Nadolig fel gwobrau. Er mwyn codi gymaint o arian ac sy'n bosib i'r ysgol rydym yn gofyn yn garedig i rieni a chyfeillion yr ysgol i roi rhodd o fwyd a diod addas i hampers. Er mwyn medru trefnu'r gwobrau a chynnal y raffl byddwn yn ddiolchgar derbyn unrhyw roddion i'r ysgol erbyn Dydd Gwener 27ain o Dachwedd 2020.

Fyddwn hefyd yn ddiolchgar iawn o unrhyw roddion eraill fel nwyddau neu dalebau gan unrhyw un gyda busnes ei hunain neu yn adnabod unrhyw fusnes fysa'n hoffi cyfrannu tuag at yr achos.

Byddwn yn cychwyn gwerthu tocynnau raffl dros y we ym Mis Rhagfyr. Rydym yn gobeithio medru defnyddio paypal i wneud hyn yn hytrach nag arian man. Fwy o wybodaeth i ddilyn.

Ras Rhithiol Sion Corn Noddedig

Rydym am gynnal ras hwyl rithiol 5k, cerdded, loncian neu redeg. Bydd croeso i unrhyw un cymryd rhan a bydd gwobr fach i bob plentyn yn yr ysgol. Fydd hwn yn rhedeg trwy mis Rhagfyr a fedrwch wneud hyn yn amser eich hun unwaith byddwch wedi cofrestru. Rydym wedi agor tudalen Crowdfunding er mwyn medru casglu arian noddedig. Fydd mwy o fanylion am hwn i ddilyn.

Diolch yn fawr iawn a edrychwn ymlaen at dderbyn eich rhoddion i'r raffl.

Pwyllgor Cyfeillion Ysgol Waunfawr